**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth Tachwedd 21ain am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Dyfrig Berry, Rhys Thomas & Gwawr Cordiner; a Jenny Barlow (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Rob Parkes, Lara Pritchard, Philip Stevens & Alyn Ashworth.

Croesawodd clerc y dref bawb i gyfarfod mis Tachwedd. Gan nad oedd y Cadeirydd a'r dirprwy yn gallu mynychu, enwebwyd y Cyng Dyfrig Berry fel cadeirydd.

**Arsylwi** - Stephan o'r clwb tenis.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Dim.

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar nos Fawrth 17eg o Hydref 2017.**
(Yn dilyn o'r cyfarfod bydd Clerc y Dref yn ychwanegu'r eitem hon at gyfarfod mis Rhagfyr gan nad oedd unrhyw un yn bresennol i ail gymeradwyo'r cofnodion.)

3. **Materion yn codi:** Dim

4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

Gan fod Stephan yn bresennol, trafodwyd eitem 5.5 ar yr agenda yn gyntaf, a chytunodd y cynghorwyr ar hyn. Hefyd, roedd Stephan ar gael i ateb cwestiynau yn ymwneud â'r cais a gytunwyd gan y cynghorwyr.

Gofynnodd y Cyng Rhys Thomas am yr amser y byddai'r goleuadau'n cael ei adael ymlaen.
Stephan – 9yh.
Cynghorodd y Cyng Dyfrig Berry fod y goleuadau yn agos at lety gwarchod a'r ysbyty.
Dywedodd Stephan fod hyn eisoes wedi'i ystyried. Cynhaliwyd ymgynghoriad heb unrhyw wrthwynebiad.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) 01/2015/1240
Tir rhwng Ffordd Rhuthun newydd a hen.
Datblygu 2.1ha o dir at ddibenion preswyl (cais amlinellol gan gynnwys manylion mynediad).

(2) 01/2017/0965
Maes parcio aml-lawr,
Lôn Barkers Well, Dinbych.
Gwaith ar goed ewcalyptws mewn ardal gawraeth Dinbych.

(3) 01/2017/0999
63 Trewen, Dinbych.
Codi estyniad i'r annedd.

(4) 01/2017/1001
2 Lon Y Gelli, Dinbych.
Dymchwel estyniad a lolfa haul a chodi estyniadau a newidiadau i’r annedd.

(5) 01/2017/0844
Cwrt Tennis, Y Parc Isaf, Ffordd Rhuthun, Dinbych.
Gosod llifoleuadau i gwrt tennis.

Roedd y cynghorwyr yn dymuno hysbysu'r Cyngor Sir y dylid cyfyngu 9yh am yr amser y caiff y goleuadau eu diffodd yn y cyrtiau tenis.

(6) 01/2017/1006
Bron Haul, Henllan Place, Dinbych.
Gosod ffenestri newydd a drws allanol a newidiadau mewnol yng nghefn yr eiddo (cais adeilad rhestredig).

(7) 01/2017/1056
Gardd Gofeb Pierce, Ffordd y Dyffryn, Dinbych.
Gwaith i goed o fewn ardal gadwraeth Dinbych.

Am nad oedd mwy i’w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.54 o’r gloch.

Arwyddwyd:…………………………………………………(cadeirydd)

Dyddiad:…………………………………